LIVING STREETS

DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

# WOW A'R CWRICWLWM

## ENILLION CYFLYM

### 3 ffordd hawdd o gynnwys WOW yn eich cwricwlwm

Anogwch ddisgyblion i:

- Ddefnyddio arolwg sylfaenol eich ysgol i gyfrifo canrannau a chreu siartiau.
- Ysgrifennu erthygl newyddion am her WOW neu lythyr yn gwahodd cyd-ddisgyblion i gymryd rhan.
- Llunio llun o'u taith ddelfrydol i'r ysgol, gan feddwl am yr hyn maen nhw'n ei weld, pwy maen nhw'n ei gyfarfod a sut mae'r strydoedd yn edrych.

## GWYDDONIAETH

- Lluniwch brawf gwyddonol i archwilio effaith ymarfer corff yn ystod y pwnc 'Anifeiliaid gan gynnwys bodau dynol'.
- Defnyddiwch ein cynllun gwers 'Olion Traed' i gefnogi disgyblion i adnabod olion traed anifeiliaid: Cam Cynnydd 1 (Saesneg / Cymraeg) a Cam Cynnydd 2 (Saesneg / Cymraeg).

## LLYTHRENNEDD

- Datblygwch dechnegau ysgrifennu perswadiol trwy ysgrifennu darn yn hyrwyddo WOW.
- Defnyddiwch gerdded i'r ysgol fel ysgogiad ar gyfer stori fer.
- Defnyddiwch ein hadnodd 'Cerdded i'r ysgol drwy'r cenedlaethau' i ddangos gwahaniaethau gan ddefnyddio cymariaethau neu ansoddeiriau eithaf. Cam Cynnydd 1 (Saesneg / Cymraeg) a Cam Cynnydd 2/3 (Saesneg / Cymraeg)
- Edrychwch ar wahanol arddulliau o farddoniaeth i greu cerddi am gerdded.

## ABGI/IECHYD A LLESIANT

- Defnyddiwch ein hadnodd 'Iechyd a Llesiant' i helpu disgyblion i ystyried manteision iechyd corfforol a meddyliol cerdded i'r ysgol: Cam Cynnydd 1 a Cam Cynnydd 2/3.
- Mae cerdded i'r ysgol yn ddewis iach y gall disgyblion ei wneud i fod yn fwy egnïol. Anogwch y disgyblion i ystyried pa ddewisiadau iach eraill maen nhw'n eu gwneud bob dydd, fel brwsio eu dannedd a bwyta ffrwythau a llysiau.

## CELF A DYLUNIO

- Dyluniwch boster ysgogol yn annog cyd-ddisgyblion i gerdded, troelli, beicio a sgwtera i'r ysgol.
- Lluniwch, modelwch neu peintiwch y stryd berffaith, gan feddwl am yr hyn fyddai arni i wneud pethau'n well i bobl sy'n cerdded a throelli, e.e., croesfannau, meinciau i bobl orffwys, setiau chwarae i blant, a siopau lleol.

LIVING STREETS

LET'S WALK TO SCHOOL

## DAEARYDDIAETH

- Datblygwch sgiliau daearyddiaeth ddynol drwy astudio effaith trafnidiaeth ar y DU.
- Datblygwch sgiliau darllen map a defnyddio sgiliau iaith gyfeiriadol drwy ofyn i ddisgyblion gynllunio taith gerdded i'r dosbarth.
- Defnyddiwch ein hadnodd ‘Amgylchedd’ ar gyfer gwersi yn yr ardal leol: Cam Cynnydd 1 a Cam Cynnydd 2/3.
- Ewch ar helfa sborion i ymgyfarwyddo â'r ardal leol. Mae gennym ni un i chi ar ein tudalen adnoddau.
- Trafodwch a oes unrhyw rwystrau i gerdded i'r ysgol. Pa welliannau y gellid eu gwneud i wella strydoedd ar gyfer cerdded a throelli? Ystyriwch ysgrifennu at eich cynghorydd lleol neu AS i roi gwybod iddyn nhw.

## HANES

- Ceisiwch ail-greu teithiau hanesyddol enwog trwy fapio pwyntiau allweddol ar lwybr lleol. Cerddwch gyda'r plant drwy stori hanes!
- Defnyddiwch ein hadnodd ‘Cerdded i’r ysgol drwy’r cenedlaethau’ i ddangos y gwahaniaethau yn eich ardal leol – y gorffennol a’r presennol: Cam Cynnydd 1 (Saesneg / Cymraeg) a Cam Cynnydd 2/3 (Saesneg / Cymraeg).

## CYFRIFIADURA

- Lluniwch gyflwyniad i rieni/gofalwyr neu lywodraethwyr am her WOW, gan ymarfer sgiliau cyfrifiadurol a chyfathrebu gyda chyfryngau newydd.

## MATHEMATEG

- Defnyddiwch ddata o Deithiwr Tracio WOW i greu siartiau bar sy'n dangos pa mor egnïol yw pob un o'ch dosbarthiadau ac i wneud cymariaethau rhwng dosbarthiadau: KS1/Cam Cynnydd 1 and Cam Cynnydd 2/3.

## LLYFRGELL ADNODDAU



**Ar gyfer adnoddau, gan gynnwys cynlluniau gwersi (Saesneg a Chymraeg) a gweithgareddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth neu'r cartref, ewch i livingstreets.org.uk/WOWresources**

Mae WOW wedi'i gynllunio i gefnogi ysgolion sy'n ymwneud â chynlluniau eraill, gan ganiatáu iddo gael ei integreiddio i werthoedd craidd a chwricwlwm yr ysgol. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am sut y gall WOW ategu cynllun penodol, fel Eco-Ysgolion neu Ysgolion Iach, cysylltwch â'ch Cydlynydd WOW neu anfonwch e-bost at walktoschool@livingstreets.org.uk.

LIVING STREETS 2025. MAE LIVING STREETS (THE PEDESTRIANS' ASSOCIATION) YN ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF. 1108448 (CYMRU A LLOEGR) A SC039808 (YR ALBAN). CWMNI CYFYNGEDIG TRWY WARANT (CYMRU A LLOEGR), RHIF COFRESTRU CWMNI. 5368409. 240 CITY ROAD, LLUNDAIN, EC1V 2PR